

2025 Rhif 683 (Cy. 113)

2025 No. 683 (W. 113)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Ffordd Osgoi'r Trallwng y
Gogledd a'r De, Powys)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro) 2025

The A483 Trunk Road (Welshpool
Bypass North and South, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists and Pedestrians)
Order 2025

Gwnaed 12 Mehefin 2025
Yn dod i rym 19 Mehefin 2025

Made 12 June 2025
Coming into force 19 June 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith cynnal a chadw hanfodol y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of essential maintenance works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi'r Trallwng y Gogledd a'r De, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mehefin 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Welshpool Bypass North and South, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2025 and this Order comes into force on 19 June 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;
ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw

Interpretation

2. In this Order—

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road;
“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 19 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben am 06:00 o'r gloch ar 25 Mehefin 2025 neu pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar y darnau o gefnffordd yr A483 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6.Cymhwyso

7. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

1. Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o allanfa ogleddol cylchfan Sarn y Bryn Caled hyd at allanfa ddeheuol cylchfan yr Orsaf, y Trallwng.

2. Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o allanfa ogleddol cylchfan Orsaf, y Trallwng, hyd at allanfa ddeheuol cylchfan Tal-y-bont, y Trallwng.

intermittent periods commencing at 19:00 hours on 19 June 2025 and ending at 06:00 hours on 25 June 2025 or when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle on the lengths of the A483 trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the closure period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

6.Application

7. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

12 June 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

1. The length of the A483 trunk road that extends from the northern exit of the Sarn Y Bryn Caled roundabout to the southern exit of Station roundabout, Welshpool.

2. The length of the A483 trunk road that extends from the northern exit of the Station roundabout to the southern exit of the Buttington roundabout, Welshpool.